

Darlledu yng Nghymru

Yr achos dros ddatganoli darlledu i Gymru

PAPUR TRAFOD

Cyflwyniad	3
Crynodeb	4
Darlledu yng Nghymru	5
Cyd-destun rhyngwladol	6
Camau tuag at ddatganoli	8
Barn y Gymdeithas	9
Sianel Cymru	10
Darlun enghreifftiol	11
Ariannu'r gyfundrefn	13
Cyllideb y gyfundrefn gyfryngol	15
Casgliadau	20
<i>Atodiadau</i>	<i>19–21</i>

Cyflwyniad

Cynhelir adolygiad o S4C eleni ac mae'n deg dweud bod hyn yn cynrychioli cyfle prin iawn i edrych yn fanwl ar fanylion y diwydiant darlledu yng Nghymru. Yn ogystal, mae Gweinidog Swyddfa Cymru wedi datgan bod hyn yn gyfle i ystyried datganoli darlledu, gan ddweud bod trafodaeth o'r fath yn 'anochel' wrth gynnal yr adolygiad.

Galwodd llyfryn polisi y Gymdeithas 'Darlledu yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym 1970, am sefydlu tonfeddi radio Cymraeg a sianel deledu Cymraeg (Atodiad 1), ac mi gymrodd dros ddegawd i gyflawni'r ddau nod. Yn ogystal, bu sefydlu sianel deledu Gymreig a gorsaf radio Gymreig, cyfrwng Saesneg, ymysg rhai o'n galwadau ym 1970.

Ond, dechreuodd yr ymgyrchu dros yr alwad am 'Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru' gydag 'awdurdod llwyr dros ddarlledu yng Nghymru'. Gydag adolygiad S4C, credwn fod hi'n amserol ail-ymweld â'r cysyniadau hyn, gan hefyd ystyried pa gamau ychwanegol sydd eu hangen o ystyried y camau mawrion sydd wedi cael eu cymryd o ran technoleg yn ddiweddar. Mae gwerth nodi nad yw ein darpariaeth o ddarlledu yn Gymraeg ar y radio na'r teledu wedi symud ymlaen llawer yn y deugain mlynedd diwethaf ac nad yw cylch gorchwyl S4C wedi datblygu llawer er gwaethaf datblygiadau enfawr ar blatfformau darlledu eraill.

Nawr bod Senedd ddatganoledig gyda ni yng Nghymru, ceir cyfle i greu cyfraith gwlad a all fod o fudd uniongyrchol i'r Gymraeg, i'r economi ac i ddemocratiaeth.

Mae'r ddadl dros ddatganoli darlledu yn un gref iawn. Mae'r maes wedi ei ddatganoli mewn gwledydd datganoledig eraill; Gwlad y Basg a Chatalwnia ymysg eraill, ac mae'r pwerau wedi cael eu defnyddio er lles eu hieithoedd nhw.

Darganfu pwyllgor trawsbleidiol Comisiwn Silk, a sefydlwyd gan Lywodraeth Prydain ei hunan, ynghyd ag arolwg barn diweddar YouGov, bod dros 60% o bobl Cymru o blaid datganoli darlledu yn ei gyfanwydd i Gymru. Felly, mae gennym gefnogaeth y cyhoedd. Argymhellodd y Comisiwn ddatganoli i Gymru grant y Llywodraeth ar gyfer S4C yn unig; er i nifer o sefydliadau eraill ofyn iddynt fynd yn bellach. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Prydain wedi gwrthod gweithredu argymhelliad y Comisiwn i ddatganoli i Lywodraeth Cymru yr ychydig filiynau o bunnau'n unig sy'n mynd o drethdalwyr i S4C.

Mae nifer o gyrff eraill a sefydliadau yn y maes yn galw ar i Lywodraeth Prydain fynd yn bellach hefyd, ac yn gweld rhinwedd y ddadl dros ddatganoli darlledu. Dywedodd Yr Athro Elan Closs Stephens, Aelod Cymru o Fwrdd Unedol newydd y BBC, ar Radio Cymru'n ddiweddar: *"byddwn i'n falch o weld rhagor o atebolrwydd ... dwi o'r farn mai job Cymdeithas yr Iaith ... ydy pwyso, pwyso am rywbeth ... ac wedyn job y gwasanaeth sifil, y Llywodraeth [ac eraill] ... yw ceisio'r ffordd orau o wneud hynna ... rwy'n siwr bod yn bosib i wneud rhagor..."*¹

Mae gennym gyfle drwy'r adolygiad yma i ddechrau cyfnod newydd ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru drwy ddatganoli'r maes i Gymru.

1. Taro'r Post, Radio Cymru, 3ydd Ionawr 2017

Crynodeb

Crynowhwn ein prif gynigion a sylwadau fel a ganlyn:

1. Dylid datganoli cyfrifoldeb dros ddarledu yn ei gyfanrwydd i'r Cynulliad, sef grym rheoleiddio'r holl sbectrwm darledu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros y ffi drwydded, a dylid sefydlu fformiwla ariannol statudol ar gyfer ein sianel Gymraeg fydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, gan y byddai hynny'n cynnig sicrwydd ariannol hirdymor i'r darlledwr;
2. Rydym yn argymhell codi ardoll ar gwmnïau darledu a thelathrebu, a hefyd ar gorfforaethau sy'n gwerthu hysbysebion, megis Google a Facebook, er mwyn cyllido darledu cyhoeddus yn y Gymraeg;
3. Dylid creu 'Awdurdod Darledu Cymru' a fyddai'n rheoleiddio'r cyfryngau yng Nghymru yn lle Ofcom. Dylai aelodau'r Awdurdod newydd gael eu penodi drwy broses ddemocrataidd yng Nghymru yn hytrach na gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain. Credwn y dylai fod gan yr Awdurdod newydd swyddogaethau a phwerau:
 - i. i normaleiddio'r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol, o radio masnachol a theledu lleol i Netflix, YouTube ac yn y blaen;
 - ii. i gryfhau'r cyfryngau cymunedol a chynnwys digidol Cymraeg.
4. Credwn, o dan gyfundrefn ddatganoledig, y dylai cylch gwaith Awdurdod Cymru gynnwys sefydlu 'Sianel Cymru' a fyddai'n gyfrifol am 8 (i ddechrau) platfform Cymraeg aml-lwyfan, gan gynnwys gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein. (Gweler deigram ar dudalen 11.)
5. Dylai Sianel Cymru fabwysiadu model newydd fel corff, gan gynhyrchu canran sylweddol o'i rhaglenni'n fewnol, gan gynnwys gwasanaeth newyddion mewnol aml-lwyfan, a bod yn berchen ar stiwdios ac isadeiledd darledu. Ymhellach, bydd Sianel Cymru yn gyfrifol am ddarparu Radio Cymru 1, 2 a 3 ynghyd â llwyfan ar-lein gydag arian ychwanegol i gyflawni hynny. Bydd y model newydd hwn yn gwella telerau ac amodau nifer o weithwyr yn y maes darledu.

Darlledu yng Nghymru

Pe bai Cymru'n gorfod sefydlu system darlledu o'r newydd fory, beth fydden ni'n gorfod gwneud? Byddai angen sefydlu cyrff rheoleiddio a thechnolegol, gan gynnwys systemau i reoleiddio cynnwys ac i ddosrannu tonfeddi. Byddai angen strwythurau datblygu, rheoli, cynhyrchu a darlledu teledu Cymraeg, yn ogystal â theledu dwyieithog. Byddai hefyd angen systemau cyfatebol ar gyfer radio Cymraeg a dwyieithog, a hyn oll o fewn gweledigaeth ac egwyddor darlledu cyhoeddus. Byddai angen strwythurau a ffynonellau cyllido wrth gwrs. Byddai angen ystyried adeiladwaith a rhwydwaith darlledu cenedlaethol a lleol, gan gynnwys rôl darlledu masnachol. Ymhlith pryderon eraill, nid oes digon o ddarlledu yng Nghymru sy'n annibynnol o'r BBC ar hyn o bryd (does dim newyddion teledu amgen yn y Gymraeg, er enghraifft).

Wrth gwrs, gan nad ydym yn sôn am sefydlu system darlledu o'r newydd, mae angen dyfeisio proses esblygol sydd yn trawsnewid y sefyllfa bresennol.

Mae'n bwysig nodi bod gan Ogledd yr Iwerddon eisoes sbectrwm sy'n cael ei rhannu rhwng dwy gyfundrefn – yr un Brydeinig ac un y Weriniaeth.

Cyd-destun rhyngwladol

Dengys Gwlad y Basg a Chatalwnia ei fod yn gwbl bosib datganoli darlledu o fewn gwladwriaeth. Nid yw'r broses yn gymhleth o bell ffordd. Rhoddir isod drosolwg o sianeli a gorsafoedd yn y gwledydd hynny, gan gynnwys manylion am iaith, cynnwys a chynulleidfaoedd y gwahanol blatfformau, ynghyd ag arsylwadau ar strwythurau a ffynhonnellau cyllid y cyrff sydd yn gyfrifol amdanynt.

1. *Euskal Irrati Telebista (EiTB)*, Gwlad y Basg

Sefydlwyd *Euskal Irrati Telebista (EiTB)* yng Ngwlad y Basg ym 1982, yr un flwyddyn a lansiwyd S4C yng Nghymru. Bryd hynny, lansiwyd un sianel deledu ac un orsaf radio. Erbyn hyn, mae EiTB yn gyfrifol am:

- 6 sianel deledu (ETB 1, ETB 2, Etb 3, ETB 4, ETB Sat, Canal Vasco)
- 5 orsaf radio (Euskadi Irratia, Radio Euskadi, Euskadi Gazeta, EiTB Irratia, Radio Vitoria)

Yn ogystal â sianeli a gorsafoedd sydd yn targedu cynulleidfaoedd cyffredinol (yn debyg i S4C a Radio Cymru efallai), gwelwn fod gwasanaethau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd (Atodiad 2). Trwy'r rhain, gwasanaethir tua 700,000 o siaradwyr Basgeg y wladwriaeth a chymunedau ar wasgar yn Ewrop ac America Ladin. Mae platfformau EiTB yn darlledu yn y Fasgeg, y Sbaeneg ac yn ddwyieithog. Daw 86% o gyllid EiTB yn uniongyrchol o lywodraeth Gwlad y Basg, gyda'r gweddill yn cael ei chodi trwy hysbysebion. Mae gwerth nodi hefyd bod cwota 50% ar gyfer allbwn Basgeg ar radio masnachol yn ogystal.

2. *Corporació Catalana de Mitjans Audiovisuals (CCRTV), Catalwnia*

Yn dilyn deddfwriaeth gan lywodraeth Catalwnia, sefydlwyd *Corporació Catalana de Mitjans Audiovisuals (CCMA)* ym 1983. Fe'i lanswyd gydag un sianel deledu ac un orsaf radio. Heddiw, mae'r gorfforaeth yn gyfrifol am:

- 6 sianel deledu (TV3, 33, TV3CAT, 3/24, Super3, Esport3)
- 3 gorsaf radio (Catalunya Ràdio, Catalunya Música, Catalunya Informació, iCat FM)

Prif iaith pob un ohonynt yw'r Gatalaneg. Yn debyg i EiTb, ceir sianel a gorsaf radio yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc (Atodiad 3). Noder iCat FM yn benodol, sef gwasanaeth amlblatfform sy'n gwneud defnydd helaeth o'r rhyngwrwd a thechnoleg newydd. Er bod CCMA yn gwasanaethu cynulleidfa fwy na'r rheini yng Ngwlad y Basg ac yng Nghymru (poblogaeth Catalunya ei hun yw 7.5 miliwn, gyda 95% yn deall yr iaith a 73%, neu 5.7 miliwn yn ei siarad), mae yna elfennau strwythurol i'w system darlledu datganoledig sydd yn haeddu ystyriaeth.

Yn wahanol i Wlad y Basg, rhannwyd cyfrifoldebau dros deledu a radio rhwng dau gorff CCRTV, sef *Televisió de Catalunya* a *Catalunya Ràdio*, gydag adrannau eraill o CCRTV yn gyfrifol am gynorthwyo'r rhain trwy farchnata, cynllunio, datblygu a thechnoleg. Ceir hefyd CCRTV *Interactiva* sydd yn creu a dosbarthu cynnwys rhyngweithiol, amlgyfrwng ar gyfer yr adrannau uchod. Daw dros hanner (52%) o gyllid y gorfforaeth (h.y. CCMA) trwy gyllideb cyffredinol llywodraeth Catalwnia, a'r gweddill o hysbysebion, nawdd, nwyddau a gwerthiant cynhyrchiadau gwreiddiol.

Yn y ddau achos uchod, gwelwn fod systemau darlledu, a lanswyd yn yr un cyfnod ag S4C, wedi ehangu'n sylweddol dros y degawdau, tra bod y Gymraeg yn parhau i gael ei chyfyngu i un sianel ac un orsaf yn unig. Rydym wedi cydnabod a chroesawu cyhoeddiad diweddar BBC Radio Cymru i lansio ail orsaf radio am oriau cyfyngedig yn y bore.

Credwn fod Cymru yn haeddu yr un fath o ddarpariaeth â'r hyn sy'n bodoli yng ngwladwriaethau eraill y byd.

Camau tuag at ddatganoli

Wrth ystyried y broses ddeddfwriaethol, y man cychwyn fydd dileu'r eithriad ym Mesur Cymru sy'n cadw'r pwerau dros ddarlledu yn ôl. Er na fydd hyn o reidrwydd yn newid pethau dros nos, byddai gan Senedd Cymru yr hawl i ddeddfu yn y maes darlledu. Mae'r broses dechnegol yn fwy cymhleth o ran dosrannu tonfeddi, addasu strwythurau cynhyrchu a chreu system cyllido (e.e. ffi drwydded Gymreig) ymhlith pethau eraill. Awgrymir datganoli fesul cam, a hynny gan ddechrau gyda rheoleiddio.

Felly, mae blaenoriaethau tymor byr o ran datganoli yn cynnwys:

1. Grymoedd i ddeddfu dros reoleiddio yr holl sbectrw m darlledu ac Awdurdod S4C er mwyn galluogi sefydlu cyfundrefn rheoleiddio i Gymru;
2. Ffi'r drwydded a grymoedd i godi trethi er mwyn ariannu darlledu cyhoeddus;
3. Grymoedd dros radio masnachol, cymunedol a theledu lleol

Dylid nodi y bydd datganoli grym deddfwriaethol yn y meysydd hyn yn golygu y gall Senedd ddatganoledig Cymru benderfynu, fel sy'n bosibl ym mhob maes datganoledig, cadw'r gyfundrefn ddarlledu'n union fel ag y mae yn y lle cyntaf. Byddai datganoli felly yn caniatáu newidiadau esblygol i'r system.

Barn y Gymdeithas

Mae Ofcom wedi methu â gwasanaethu Cymru a'r Gymraeg, ac yn parhau i fethu. Credwn fod angen corff rheoleiddio annibynol i Gymru, a hynny heb unrhyw ymyrraeth fasnachol na wleidyddol. Dylid creu 'Awdurdod Darlledu Cymru' gyda dyletswydd statudol, a fydd yn gyfrifol am reoleiddio darlledu yng Nghymru, yn lle Ofcom neu fel esblygiad o Ofcom.

Byddai'r corff yn blaenoriaethu'r Gymraeg gyda chylch gwaith, dyletswyddau a grymoedd i gynnwys hyrwyddo a normaleiddio'r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol (gan gynnwys Netflix ac Amazon Prime er enghraifft), gyda phwerau ychwanegol i osod cwotâu ar radio masnachol a theledu lleol o ran y ganran o'u darlledu sydd yn Gymraeg.

Byddai gan yr Awdurdod ddyletswydd dros hyrwyddo cyfryngau cymunedol, ac yn benodol rhai Cymraeg. Er mwyn sicrhau lluosogrwydd ac ystod o leisiau amgen, mae'n bosib y bydd gan yr awdurdod reolaeth dros 'gronfa cynnwys cymunedol' a hynny i hyrwyddo cyfryngau a phlatfformau lleol er mwyn creu system darlledu o'r gwreiddiau i fyny. Mae cyfryngau cymunedol wedi profi yn ffordd effeithiol iawn o gyfoethogi'r tirlun cyfryngol yng Gwlad y Basg a Catalwnia ac o gynyddu cyfleoedd siaradwyr i ddefnyddio'r iaith.

Sianel Cymru

Newid model S4C drwy greu capasiti i gynhyrchu'n fewnol

Yn ychwanegol at hyn, dylid newid model yr S4C newydd er mwyn sicrhau y cynhyrchir canran sylweddol o'r rhaglenni'n fewnol.

Credwn mai'r gwasanaeth newyddion yw'r allbwn amlycaf y dylai'r S4C newydd gynhyrchu eu hunain ohewydd y manteision o ran lluosogrwydd ac o ran ffyniant y darlledwr eu hunain. Mae'n ddiamheuol bod dylanwad y BBC dros ddarpariaeth newyddion a materion cyfoes yn llawer rhy gryf yng Nghymru, yn enwedig yn Gymraeg lle mae gan y BBC bron â bod fonopoli ar hyn o bryd.

Credwn y dylai Sianel Cymru fabwysiadu model EITB yng Ngwlad y Basg o fod yn berchen ar stiwdios ac isadeiledd cynhyrchu ei hunan. Byddai'r adnoddau hyn wedi'u lleoli ar draws Cymru ac yn agored i gwmnïau cynhyrchu llai eu maint, a chymunedau, gael eu defnyddio. Byddai hyn yn hwb i'r diwydiannau creadigol ac yn hwb economaidd ac ieithyddol i Sir Gaerfyrddin, sef safle pencadlys newydd S4C.

Credwn y byddai cynhyrchu canran sylweddol o'r allbwn yn fewnol hefyd yn gwella telerau ac amodau gweithwyr yn y diwydiannau creadigol drwy greu rhagor o swyddi parhaol mewn maes lle mae llawer o gytundebau tymor byr a gwaith llawrydd yn rhannol ohewydd model allanodedig S4C. Sylweddolwn y bydd costau ychwanegol i'r datblygiadau hyn, fel y manylir ymhellach yn y ddogfen hon. Ond credwn, drwy ddatganoli darlledu, bydd £20 miliwn ychwanegol ar gael i wario ar Sianel Cymru 1.

Darlun enghreifftiol

Buddion y gyfundrefn ddatganoledig ar gyfer Cymru a'r Gymraeg

Er mwyn creu gwasanaethau cyfatebol i wlad y Basg a Chatalwnia (h.y. cyfundrefn darlledu y mae Cymru yn ei haeddu), credwn y dylem anelu at system newydd uchelgeisiol, a chynigir isod darlun enghreifftiol o un system ymhlith nifer o bosibiliadau. Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, yr angen difrifol i ystyried opsiynau newydd ac amgen i ariannu system o'r fath a cheir rhai o'n argymhellion i wneud hynny yn yr adran nesaf isod. O dan cyfundrefn datganoledig, newydd, byddai Awdurdod Darlledu Cymru yn sefydlu 'Sianel Cymru', y byddai ganddi gylch gwaith a fyddai'n cynnwys radio, teledu a gwasanaethau ar-lein. Gall Sianel Cymru fod yn gyfrifol am:

- 3 sianel deledu Gymraeg (daearol a/neu arlein) – SC1, SC2, SC3
- 3 gorsaf radio Gymraeg (FM/AM, digidol a/neu arlein) – RC1, RC2, RC3²
- Gwasanaeth newyddion aml-blatfform Cymraeg a gynhrychir yn fewnol – Newyddion Cymru
- Cynnig cefnogaeth i fentrau cyfryngau lleol a chymunedol sydd yn cynhyrchu cynnwys Cymraeg




Diagram – Strwythur rheoleiddio newydd posib

Noder mai nid teledu yn unig fydd o dan adain Awdurdod Darlledu Cymru nag ychwaith Sianel Cymru (olnydd S4C yn y darlun enghreifftiol presenol). Fel dangosa'r diagram, yn ogystal â sianeli teledu, byddai Sianel Cymru yn gyfrifol am y gorsafoedd radio a'r platfformau newyddion newydd, ac hefyd yn goruwchwylio cronfa creu cynnwys arlein. Sianel Cymru felly bydd yn gyfrifol am RC1 (sef BBC Radio Cymru ar hyn o bryd), RC2 (gorsaf radio lawn gyda llawer mwy o adnoddau na chynlluniau presennol y BBC) ac RC3, sef platform 24-awr newydd ar gyfer newyddion a chwaraeon. Awdurdod Darlledu Cymru byddai'n rheoleiddio hyn oll.

Byddai nifer o'r gwasanaethau hyn yn rhai heb hysbysebion ac yn targedu gwahanol grwpiau demograffeg a grwpiau diddordeb. Wrth edrych eto ar esiamplau Gwlad y Basg a Chatalwnia, yn

2. SC – Sianel Cymru, RC – Radio Cymru

ogystal a'u prif sianeli cyffredinol, ceir hefyd sianeli i bobol ifanc/plant, chwaraeon a newyddion. Gallai system darlledu newydd edrych rhywbeth fel hyn:

SC1 – sianel cyffredinol

SC2 – sianel i blant (bore/prynhawn) a phobol ifanc (prynhawn hwyr/nos)

SC3 – sianel newyddion a chwaraeon, yn seiliedig ar rwydwaith gymunedol

RC1 – gorsaf gyffredinol (24 awr y dydd)

RC2 – gorsaf i bobol ifanc a cherddoriaeth gyfoes

RC3 – gorsaf newyddion a chwaraeon (24 awr), yn seiliedig ar rwydwaith gymunedol

Mae plwraliaeth ac amrywiaeth o ran darparwyr yn y maes newyddion yn hanfodol i ddemocratiaeth iach yng Nghymru. Ar hyn o bryd dim ond y BBC sydd yn cael cynhyrchu rhaglennu newyddion Cymraeg ar gyfer teledu.

Byddai SC3 a RC3 yn seiliedig ar rwydwaith cymunedol, gan fanteisio a chefnogi endidau cyfryngau cymunedol i ddarlledu ar lwyfan genedlaethol yn ogystal ag un lleol.

Byddai cylch gorchwyl Awdurdod Darlledu i Gymru yn esgor ar dwf yn y cyfryngau cymunedol a chynnwys digidol Cymraeg. Byddai'n diogelu ac ehangu radio a theledu cymunedol Cymraeg, gan ffafrio'r darpariaethau hynny yn lle cyfundrefn Ofcom sydd wedi arwain at gwmnïau mawrion yn cwtdogi ar gynnwys Cymraeg a Chymreig. Byddai'r Awdurdod hefyd yn sicrhau nad yw monopoli presennol ychydig o gwmnïau cynhyrchu Cymraeg yn parhau, trwy dosrannu gwaith a chytundebau yn ehangach i gynnwys cwmnïau llai, newydd, arbrofol a/neu arloesol.

Dangosir y diagram uchod y byddai Awdurdod Darlledu Cymru hefyd yn sefydlu endid darlledu dwyieithog newydd. Byddai'r endid newydd yn gyfrifol am:

- 1 sianel deledu ddwyieithog Gymreig (WC = Wales Channel)
- 1 orsaf radio ddwyieithog Gymreig (RW = Radio Wales)
- 1 gwasanaeth dwyieithog ar-lein Cymreig
- Grymoedd i reoli cwmnïau megis YouTube, Netflix, Google, Apple er mwyn sicrhau blaenoriaethu cynnwys o bob math yn Gymraeg, gan gynnwys fideo, rhaglenni a ffilm, e.e. creu YouTube Cymru, ar wahan i 'YouTube GB'

Mae'n bwysig cofio y byddai pobl Cymru yn parhau i gael mynediad at gyfryngau Saesneg o weddill ynysoedd Prydain a'r byd yn ogystal â'r darlledu cynhenid Cymraeg a dwyieithog ychwanegol. Ni fydd amhariaeth ar fwynhad cynulleidfaoedd Cymreig o allbwn y BBC, gan gynnwys rhaglenni poblogaidd megis Eastenders.

Rydym yn argymhell system sydd yn cynyddu nifer y platfformau cyfryngol sydd ar gael i bobol Cymru. Yn yr adran isod, esbonir sut y bydd system tebyg i hwn nid yn unig yn amddiffyn amodau gwaith a chyflogau gweithwyr y sector, ond yn wir yn eu cynyddu. Trwy adfer cyllideb sydd ar hyn o bryd yn dod i S4C, trwy ddatganoli'r ffi drwydded a chodi ardoll ar gwmnïau mawrion, dangosir sut y bydd hi'n bosib ariannu'r fath system er lles pobl Cymru, gweithwyr y diwydiant a chenedloedd y dyfodol.

Ariannu'r gyfundrefn

Yn 2015, cyhoeddodd y Gymdeithas bapur ynglŷn ag ariannu darlledu Cymraeg, gan amlinellu opsiynau amgen ar gyfer ariannu darlledu cyhoeddus, gwasanaeth amlblatfform newydd, ac S4C yn benodol³. Rydym wedi datblygu'r gwaith hwnnw ymhellach ar gyfer y papur hwn gan ddatblygu amlinelliad o sut y gallai Cymru ariannu cyfundrefn darlledu ddatganoledig.

Ymddengys ei fod yn bosib ystyried sawl un o'r argymhellion hynny yng nghyd-destun ehangach datganoli darlledu yn ei gyfanrwydd.

1. Ariannu'n uniongyrchol gan y Cynulliad
2. Datganoli'r ffi drwydded
3. Ardoll ar wasanaethau, rhyngwrwyd, cwmnïau telethrebu, hysbysebion a/neu'r sector preifat

Petai corfforaeth darlledu Cymraeg yn goruchwyllo teledu a radio masnachol, yn ogystal â sianeli a gorsafoddd darlledu cyhoeddus, byddai modd codi swm sylweddol ychwanegol wrth werthu gofod hysbysebu ar y platfformau hynny. Fel yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia, mae'n debyg mai cyfuniad o ffynonellau ariannol fyddai'r datrysiad orau. Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd gan y BBC y bwriad i lansio sianel deledu newydd i'r Alban yn Hydref 2018, a hynny gyda chyllid o tua £30 miliwn, sef yr un swm a dderbynwyd yn flynyddol gan BBC4⁴. Gwelwn, felly, bod y symiau ar gyfer sianeli newydd, ychwanegol (h.y. rheini sy'n ategu'r prif sianel cyffredinol) yn gymharol llai oherwydd oriau darlledu gostyngol, nifer o ail-ddarllediadau, a chostau llai ar gyfer cyd-gynhyrchiadau a rhaglenni a 'brynnir i mewn'.

Ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru

Yn debyg i'r systemau Basgeg a Chatalaneg, gallai cyfran statudol o gyllid corfforaeth darlledu Cymraeg datganoledig ddod yn uniongyrchol o Lywodraeth Cymru. Yn 2014, awgrymodd Comisiwn Silk y dylai'r cyfrifoldeb dros ariannu S4C symud o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Lywodraeth Cymru yn ogystal â newidiadau strwythurol eraill. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, ac er mwyn sicrhau bod yr arbenigedd a'r gallu yng Nghymru i wneud y penderfyniadau cywir dros ddyfodol darlledu, byddai grymoedd ariannu a deddfu dros y cyfryngau yn cael eu trosglwyddo i'r Senedd yng Nghymru. Dim ond datganoli llawn fyddai'n caniatáu i bobl Cymru lunio cyfundrefn sy'n addas iddyn nhw. Credwn y dylai Senedd Cymru wedyn sefydlu 'Awdurdod Darlledu Cymru' fel y corff rheoleiddio cenedlaethol yn y lle cyntaf er mwyn diogelu annibyniaeth darlledwyr cyhoeddus datganoledig.

Datganoli ffi'r drwydded

Byddai sicrhau ffi drwydded Gymreig yng Nghymru yn gallu talu tuag at ariannu goruchwylwr darlledu o'r fath y mae'r wlad yn ei haeddu; er mwyn pennu pwy fyddai'n berchen ar fastiau a sut caent eu defnyddio, a gosod rheoleiddio annibynnol ar y sector yng Nghymru er mwyn penderfynu faint o newyddion, rhaglenni a cherddoriaeth Cymraeg a Chymreig buasai ar gael – gan hefyd rhoi mwy o sicrwydd i ddarlledu cyhoeddus yng Nghymru ac i S4C yn benodol. Rydym yn sylweddoli y byddai angen cyfnod o amser er mwyn sefydlu cyfundrefn ar wahân i Gymru. Ond gyda ffi'r drwydded ar lefel Brydeinig o dan fgythiad, byddai'n synhwyrol

3. <http://cymdeithas.cymru/dogfen/ariannu-darlledu-cymraeg-treth-newydd-i-ariannu-darparpwydd-amlgyfryngol-cymraeg-newydd>

4. <http://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-39042666>

i Lywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar gostau ac ymarferoldeb sefydlu'r gyfundrefn Gymreig.

Ardoll ar wasanaethau, rhyngwrwyd, cwmnïau telethrebu, hysbysebion a/neu'r sector preifat

Mae mwyfwy o gefnogaeth i'r syniad o gasglu ardoll. Ym mis Rhagfyr 2016, ac yng nghyd-destun gweithgareddau busnes Facebook a Google, cyhoeddodd yr academydd Leighton Andrews ei fod yn "gwbl gefnogol o'r syniad bod angen camau adfer ar lefel genedlaethol, megis ardoll ar refeniw gyfryngwyr rhyngwrwyd"⁵. Yn ein papur 'Ariannu Darlledu Cymraeg', dangoswyd bod trosiant ac elw cwmnïau mawrion, megis TalkTalk, EE, BSkyB a Google, wedi parhau i gynyddu'n sylweddol er gwaethaf y dirwasgiad ac yn wyneb toriadau enfawr i ddarlledu cyhoeddus. Dangoswyd hefyd y byddai ardoll o 1% yn unig ar drosiant dim ond rhai o'r cwmnïau hyn yn unig (yn seiliedig ar ffigyrau 2013) yn codi dros £150 miliwn yn flynyddol ar lefel Brydeinig. Trwy ymestyn yr ardoll i gwmnïau mawrion eraill, megis Facebook, Vodafone a Virgin Media, gellir codi swm sylweddol uwch er mwyn ariannu darlledu cyhoeddus ar draws gwledydd Prydain, gyda chyfran deg ohono yn mynd yn uniongyrchol at gorfforaeth darlledu Cymraeg a gwasanaethau presennol a newydd.

Ymysg materion eraill, bydd angen dileu'r eithriad i ddeddfu ar ddarlledu sydd ym Mesur Cymru. Yn ogystal â phwerau dros ffi'r drwydded, bydd angen ymestyn yr hawl bresennol sydd gan Senedd Cymru i godi trethi newydd er mwyn iddynt ystyried codi ardoll newydd ar ddarlledwyr preifat ac eraill.

5. <https://medium.com/@leightonandrews/europe-should-regulate-facebook-and-google-f6b2c48456a1>

Cyllideb y gyfundrefn gyfryngol

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi creu cyllideb ddrafft sydd yn seiliedig ar y dystiolaeth gyhoeddus sydd ar gael o'r maes, ymchwil cychwynnol, ac adborth a dderbyniwyd i'r fersiwn cyntaf o'r ddogfen hon. Hyd y gwyddom, dyma'r tro cyntaf i symiau pendant gael eu gosod i geisio creu cyllideb ar gyfer darlledu datganoledig yng Nghymru.

Mae sawl ffordd bosibl o gyfrif y gyllideb sydd gan Gymru i'w gwario ar ei chyfundrefn ddatganoledig.

Nid oedd modd canfod ffynhonnell ddibynadwy ar gyfer Cymru ym mhob achos. Wrth gwrs bydd modd cynnal ymchwil sydd yn ymateb i anghenion cyfryngol yng Nghymru o dan y drefn ddatganoledig. Yn y cyfamser mae'n rhaid cyflwyno'r achos ar y data gorau sydd ar gael a cheisio cyfrif amcangyfrifon.

Nodwch fod poblogaeth Cymru yn 4.85% o boblogaeth tiriogaethau'r Deyrnas Gyfunol yn ôl Cyfrifiad 2011⁶.

Incwm: ffi drwydded

Yn 2011, yn yr un flwyddyn â'r Cyfrifiad diweddaraf, roedd 25,103,079 o gartrefi yn y Deyrnas Gyfunol gyda set deledu⁷. Yn ôl ymateb y BBC i gais rhyddid gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2017, dyma'r cyfanswm o drwyddedau teledu: "*Trwyddedau mewn grym yng Nghymru ar yr 31ain o Fawrth 2017: 1,285,107*"⁸

Gan ddiystyrru eithriadau fel trwyddedau am ddim i bobl dros 75 oed (sydd yn lleihau'r cyfanswm) ac adeiladau eraill megis y cannoedd o westai, tafarndai ac ati (sydd yn cynyddu'r cyfanswm), mae'r incwm o'r ffi drwydded (£147.00 fesul cartref⁹) yng Nghymru oddeutu £188,910,729.

Eitem	Incwm
Ffioedd Trwydded Teledu Cartrefi a Busnesau yng Nghymru	£188,910,000

Incwm: ardoll

Mae o leiaf tri chategori o fusnes anferth sydd yn dominyddu marchnadoedd cyfryngol ac wedi mwynhau ffafwr y wladwriaeth o ran trethu a pholisi cyhoeddus.¹⁰

Rydym am ddefnyddio canran Cymru o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol (4.85%) eto fel sail i gyfrifon gan nad yw'r cwmnïau na chorfforaethau yn cyhoeddi ffigyrau am Gymru. Felly petai ardoll o 1% ar werthiannau'r cwmnïau yn cael ei chodi er mwyn ariannu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DG y ganran o incwm fyddai yn ddyledus i bobl Cymru fyddai 0.0485%.

Er mwyn cydnabod gwir faint y busnesau a sicrhau tegwch i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, byddai'r ardoll yn perthyn i werthiannau (yn yr un modd â threth ar werth), yn hytrach nag 'elw' a ddatganir gan y cwmnïau.

6. <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160108124336/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/mro/news-release/y-cyfrifiad-yn-dangos-bod-poblogaeth-cymru-dros-dair-miliwn/censuswelshe0712.html>

7. <http://www.tvlicensing.co.uk/cy/about/foi-licences-facts-and-figures-AB18>

8. Ymateb y BBC i gais rhyddid gwybodaeth ar 18fed Gorffennaf 2017

9. <http://www.tvlicensing.co.uk/languages/LANG1>

10. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0018/23913/tvadvmarket.pdf

Cwmnïau telethrebu: band llydan/rhynggrwyd, llinell tir, ffôn symudol (ardoll ar werthiannau)

Mae ffigyrau Ofcom am werthiannau yn y marchnadoedd amrywiol hyn yn cynnwys sawl cwmni adnabyddus.¹¹

Mae gwerthiannau o £3.75b yn y marchnadoedd hyn ar draws tiriogaethau'r DG.¹² Petai pobl Cymru yn cymryd eu 0.0485% o'r cyfanswm byddai hyn yn arwain at swm o oddeutu £18,182,000 i Gymru.

Cwmnïau teledu masnachol (hysbysebion a thanysgrifiadau)

Prif ffynonellau incwm teledu masnachol fel Sky ac ITV ydy hysbysebion (£5.27b o werthiannau bob blwyddyn¹³) a thanysgrifiadau (£6.12b¹⁴). Felly £2,555,000 a £2,967,000 fydd y cyfansymiau sydd yn ddyledus i Gymru (ar ganran o 0.0485%).

Cwmnïau cyfryngol ar-lein

Facebook a Google yw'r ddau brif enghraifft o gwmnïau ar-lein sydd yn gwneud incwm trwy hysbysebion ar gefn cynnwys trydydd parti. Maent yn cystadlu gydag endidau cyfryngol cyhoeddus heb gynhyrchu unrhyw gynnwys Cymraeg na Chymreig o sylwedd eu hunain. Ar yr un pryd, maent yn dosbarthu cynnwys heb fawr o ystyriaeth o safonau newyddiadurol a darlledu proffesiynol o ran cywirdeb a dibynadwyaeth.

Mae'r cyfanswm o wariant ar hysbysebion digidol, £10.3b bob blwyddyn, yn golygu rhan o ardoll o £4,994,000 i Gymru sydd yn siŵr o gynyddu yn y dyfodol.¹⁵

Eitem	Incwm
Cwmnïau telethrebu: band llydan/rhynggrwyd, llinell tir, ffôn symudol	£18,182,000
Cwmnïau teledu masnachol (hysbysebion)	£2,555,000
Cwmnïau teledu masnachol (tanysgrifiadau)	£2,967,000
Cwmnïau cyfryngol ar-lein	£4,994,000
Cyfanswm:	£28,699,000

11. Y pedwar cwmni gwasanaeth ffôn symudol mwyaf yn y DG (yn dechrau gyda'r mwyaf) yw EE (g.g. Orange a T-Mobile), O2, Vodafone a Three, gyda tua 85% o'r farchnad rhyngddyn nhw. Y pedwar cwmni band llydan/rhynggrwyd mwyaf yn y DG (yn dechrau gyda'r mwyaf) yw BT Broadband, Sky Broadband, Virgin Media a TalkTalk. Gyda tua 87% o'r farchnad rhyngddyn nhw.

12. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/26648/uk_telecoms.pdf

13. <https://www.thinkbox.tv/News-and-opinion/Newsroom/20160223-TV-advertising-spend-in-the-UK-tops-5-billion-for-first-time>

14. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/17495/uk_tv.pdf

15. <https://www.marketingweek.com/2017/04/25/uk-ad-spend-digital/>

Incwm: trosglwyddiadau Barnett

Mae rhyw faint yn cael ei wario gan Lywodraeth San Steffan ar hyn o bryd y byddai'n rhesymol disgwyl cael ei drosglwyddo i awdurdodau yng Nghymru. Byddai'r incwm ar sail trosglwyddiadau Barnett fel a ganlyn:

Eitem	Incwm
Trosglwyddo grant S4C Llywodraeth Prydain i Lywodraeth Cymru ¹⁶	£6,700,000
Canran Cymru o ffioedd darlledu a sbectrwm Ofcom (amcangyfrif) ¹⁷	£18,000,000
Trosglwyddiad Barnett am wariant Prydeinig Adran Ddiwylliant Llywodraeth Prydain ¹⁸	£1,000,000
Trosglwyddiad Barnett am wariant Llywodraeth Prydain ar y World Service ¹⁹	£4,122,500
Trosglwyddiad Barnett am gostau gweinyddol Adran Ddiwylliant Llywodraeth Prydain ²⁰	£2,716,000
Cyfanswm:	£32,538,500

16. <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/38664339>

17. Yn ystod y flwyddyn, bu i Ofcom anfonebu a chasglu cyfanswm o £381.3m i'r pwrs cyhoeddus oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau o dan y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr, rhifau ffôn daearyddol, taliadau ychwanegol oddi wrth y rheini sy'n dal trwyddedau darlledu a thrwy osod dirwyon a chosbau ar randdeiliaid¹⁸ tudalen 24, adroddiad blynyddol Ofcom 2016/17 https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0011/104510/adroddiad-chyfrifon-blynyddol-swyddfa-gyfathrebiadau.pdf

18. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631336/DCMS_Annual_Report_and_Accounts_2016_to_2017_-_web_optimised_version.pdf

19. <http://www.bbc.co.uk/news/entertainment-arts-34902244>

20. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/631336/DCMS_Annual_Report_and_Accounts_2016_to_2017_-_web_optimised_version.pdf (tudalen 237)

Gwariant²¹

Dyma grynodeb o'r gwariant blynyddol o dan ein system ddatganoledig enghreifftiol:

Gwariant	Cyfanswm cyllideb	Nodiadau
Llwyfan		
SC1 (S4C gynt)	£100,000,000	Prif sianel deledu Gymraeg. Cyllideb S4C yn 2009/10
SC2	£30,000,000	Ail sianel deledu Gymraeg. Cost yn seiliedig ar gostau BBC 4 neu BBC Scotland
SC3 (rhwydwaith cymunedol)	£17,000,000	Trydedd sianel deledu Gymraeg. Cost tebyg i BBC 3 ar ei newydd wedd. Bydd endidau cyfryngau cymunedol yn cyfrannu at allbwn y sianel.
SC/W (endid dwyieithog)	£30,000,000	Sianel deledu ddwyieithog. Byddai gwerth y gyllideb go iawn tua £43 miliwn oherwydd gwerth prynu rhaglenni i mewn o'r BBC yn Lloegr.
RC1	£14,000,000	Radio ac ar-lein
RC2	£3,000,000	Ail orsaf radio Gymraeg arall ac ar-lein
RC3 (rhwydwaith cymunedol)	£3,000,000	Trydedd gorsaf radio Gymraeg. Bydd endidau cyfryngau cymunedol yn cyfrannu at yr allbwn yr orsaf.
RC/W (endid dwyieithog)	£14,000,000	Gorsaf radio ddwyieithog
Cronfa Cynnwys Cymunedol (ar-lein)	£1,000,000	Mentrau/cynnwys ar-lein
Cronfa Cynnwys Ar-lein	£1,000,000	Mentrau/cynnwys ar-lein. Mae'r gyllideb hon pum gwaith lefel gyllido bresennol Golwg360.
Costau eraill		
Awdurdod Darlledu Cymru (rheoleiddio)	£5,868,500	Cyllideb Ofcom DG yw £121 miliwn yn 2017/18.
Isadeiledd technegol: ffioedd a chostau darparwyr technegol, costau darlledu a dosbarthu aml-lwyfan, ayyb	£15,000,000	...
Cost pwrcasu hawliau rhaglenni wrth y BBC (gwerth y rhaglenni yn mynd at yr endid dwyieithog)	£13,230,000	Yn seiliedig ar gost y pen y bu lwerddon yn ei dalu ar gyfer rhaglenni'r BBC
Costau gweinyddol ychwanegol Llywodraeth Cymru	£3,000,000	Costau sefydlu a chynnal Adran Ddarlledu o fewn Llywodraeth Cymru
Cyfanswm	£250,098,500	

21. Mae'r gwariant uchod yn cynnwys costau gweinyddol ar gyfer sefydlu a chynnal dau endid darlledu cenedlaethol ar wahan sef 'Sianel Cymru' a'r 'endid dwyieithog'.

Balans

CYFANSWM Y GWARIANT	£250,098,500
CYFANSWM YR INCWM	£250,148,322
BALANS	£49,822 (gwarged)

Cynigiwn yr uchod fel ymgais gwirioneddol i ddangos sut y gallai cyfundrefn ddarlledu ddatganoledig weithio. Yn anochel, mae ansicrwydd ynghylch rhai o'r ffigyrau gan nad yw'r gyfundrefn wedi ei datganoli eto a chan nad yw ffigyrau ar gael ar lefel Gymreig. Felly, byddem yn croesawu sylwadau ar y dadansoddiad uchod fel rhan o drafodaeth agored ar faterion darlledu.

Fodd bynnag, credwn ei fod yn wir ddweud y byddai datganoli darlledu yn hwb enfawr i ddarlledu a democratiaeth Cymru gyda mwy o arian yn cael ei wario ar ddarlledu yng Nghymru nag sydd heddiw. Yn ogystal â hynny, cynhyrchir yr holl raglenni darlledu cyhoeddus o bersbectifau Cymru felly byddent yn adlewyrchu dyheadau pobl Cymru.

Casgliadau

Credwn fod datganoli darlledu yn cynnig cyfle am gyfnod newydd i'r Gymraeg ynghyd â bywiogi ein democratiaeth a'n holl gymunedau yng Nghymru. Drwy ddatganoli'r cyfrifoldeb i Gymru, byddai modd creu 'Awdurdod Darlledu i Gymru' sef rheoleiddiwr ar gyfer yr holl sbectrwm a fyddai'n galluogi ehangu a normaleiddio'r Gymraeg ar bob plattform.

Rydym yn hyderus bod modd i Gymru, wedi i ni ddatganoli darlledu, nid yn unig gynyddu gwariant ar S4C ar ei newydd wedd, sef Sianel Cymru 1, ond yn ogystal ehangu'r ddarpariaeth i gynnal 3 sianel deledu Gymraeg, 3 gorsaf radio Gymraeg a sawl llwyfan ar-lein ynghyd ag endid dwyieithog. Yn wir, bydd y buddsoddiad mewn darlledu yn llawer uwch nag y mae heddiw – dyna'r budd a ddaw yn sgil datganoli. Yn lle bod Cymru yn gorfod ceisio perswadio darlledwyr Prydeinig i wario ein harian ein hunain yng Nghymru, bydd sofraniaeth gan bobl Cymru i sicrhau bod y cyfryngau yn wirioneddol gwrdd ag anghenion ein gwlad.

Bydd y datblygiadau yn hwb i'r Gymraeg a diwylliannau Cymru ym mhob cymuned, drwy sicrhau bod cynnwys Cymraeg wedi ei normaleiddio ar draws pob plattform. Drwy wneud y Gymraeg yn iaith ddiofyn ein cyfryngau, bydd defnydd yr iaith yn cynyddu a bydd modd i bobl, o bob cefndir, gael byw eu bywydau yn Gymraeg. Bydd yn sicrhau telerau ac amodau gwell i weithwyr ynghyd â chreu a lledaenu cyfoeth yn llawer iawn gwell ledled y wlad.

Yn ogystal, bydd yn hwb i ddemocratiaeth gan sicrhau bod sylw a chraffu cryfach ar ein prosesau democrataidd. Yn wir, heb ddatganoli darlledu, credwn fod diffyg dealltwriaeth y cyhoedd o'n democratiaeth yn broblem gynyddol a chynddrwyg fel y gallai beryglu bodolaeth a phwerau ein Senedd.


Rydym wedi gosod allan gynigion manwl yn y papur hwn, ond yn y pendraw swyddogaeth Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fydd parato'i'r manylion er mwyn datganoli'r maes. Fodd bynnag, mae'r brif egwyddor yn ddiarnheul: dylai penderfyniadau am ddarlledu yng Nghymru gael eu gwneud yn Nghymru.

Grŵp Digidol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Awst 2017
#DatganoliDarlledu
post@cymdeithas.cymru

Atodiad 1:

Llyfryn Polisi 'Darlledu yng Nghymru' (1970)

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg



Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Awdurdod Darlledu i Gymru-NAWR

PAM MAE DARLLEDU'N BWYSIG

Mae'r teledu a'r radio yn rhannau sylfaenol o fywyd beunyddiol y mwyastrif o bobl Cymru, a chan mai gwasanaeth a grewyd yn Llundain ydyw, mae'n wasanaeth darlledu sylfaenol Seisnig. O'r herwydd, cyflhira ein pobl i feddwl fel Saeson ac i anghofio'r Gymraeg.

Mae'r gyfundrefn ddarlledu bresennol yng Nghymru yn fodd i ladd yr iaith Gymraeg a'i gwareiddiad.

RHAI FFEITHIAU:

Teledu	
Oriau o Gymraeg yn 1969-70	660 awr
Oriau o Saesneg	11,040
Radio	
Oriau o Gymraeg	699 awr
Oriau o Saesneg	23,502

POLISI CYMDEITHAS YR IAITH

1. Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru gydag awdurdod llwyr dros ddarlledu yng Nghymru a chyfrifoldeb i sicrhau fod pob rhan o Gymru yn derbyn ei wasanaeth.
2. Sianel deledu Gymraeg a sianel deledu Saesneg.
3. Tonfedd radio Gymraeg a thonfedd radio Saesneg.

Cydnabyddwn na ellir gwneud hyn dros nos; ond dylid dechrau ar unwaith drwy sefydlu sianel deledu Gyn..aeg, fel y prif flaenoriaeth, i ddarlledu lleiafswm o 3 awr y noson, a graddol ddatblygu hyn yn wasanaeth llawn. Dylid darparu mwy o raglenni Saesneg o Gymru i lenwi'r bylchau a greid yng ngwasanaeth presennol B.B.C. Cymru a H.T.V.

A YW HYN YN YMARFEROL

A Ar hyn o bryd mae un sianel UHF heb ei llenwi. Rhaid sicrhau y rhoddir hon i'r Gymraeg.

B Cyfrifoldeb mesol y Llywodraeth yw sicrhau yr arian angenrheidiol i wasanaeth o'r math yma - drwy grant uniongyrchol. Os oes ewyllys gennym nid oes unrhyw anhawster anorchfygol - dangosodd gwledydd eraill, megis yr Yswidwr, hynny i ni.

PA GAMAU A GYMERODD Y GYMDEITHAS?

- a) wedi diffinio'n hamcanion yn fanwl mewn llyfryn "Darlledu yng Nghymru". (10c o'r Swyddfa).
- b) wedi gohebu â'r awdurdodau, eu deisebu, danfon dirprwyasthau atynt i drafod y mater.
- c) wedi cynnal ymryd, taith gerdded a gwynosau i geisio cyffroi cydwybod yr awdurdodau i weithredu.
- d) ar ôl ymgyrchu fel hyn, ysgrifenasom at y prif awdurdodau darlledu yn Llundain (cadeiryddion y B.B.C. a'r I.T.A. a'r Gweinidog Post) yn gofyn iddynt ddatgan yn glir erbyn y Sulgwyn a oeddynt o blaid sefydlu sianel deledu Gymraeg neu beidio.

YMATEB YR AWDURDODAU

A Dywedodd Cyngor Darlledu Cymru y B.B.C. nad oedd ganddynt hwy y grym i weithredu ein cynigion - am y geirw am benderfyniad gwleidyddol. Sefydlasant bwyllgor gwaith i ymchwilio i gost sianel deledu Gymraeg.

B Nid oedd yr Awdurdodau yn Llundain yn barod rwy ystyriaeth ddifrifol i'r mater o gwbl.

OHERWYDD EIN HANFODLONRWYDD AR ATEBION YR AWDURDODAU YN LLUNDAIN RHAID OEDD I'R GYMDEITHAS GYMRYD Y CAMAU DIFRIFOL CANLYNOL:

- a) Dringo mastiau i geisio atal y gwasanaeth.
- b) Torri i mewn i adeiladau'r cyfryngau darlledu a gwneud niwed cyfyngedig i eiddo.

Daethpwyd a chyhuddiad difrifol o "gynllwynio" yn erbyn ein haelodau am hyn.

Gresynwn ein bod wedi gorfod cymryd y camau difrifol hyn, ond yn wyneb gwrthodiad yr awdurdodau i ymateb i bob dull arall nid oedd gennym ddewis. Wyneb yn wyneb a marwolaeth iaith, a'i gwareiddiad, peth bychan yw niweidio eiddo.

Y FFORDD YMLAEN

Gwrthod talu treth teledu

Galwn ar holl bobl Cymru i wrthod talu treth teledu o hyn allan hyd nes y sefydlir sianel deledu Gymraeg. Danfonwch eich enw i swyddfa'r Gymdeithas os ydych am ymuno yn yr ymgyrch hon. Sarhad ar Gymro yw talu treth i gynnal gwasanaeth darlledu sy'n lladd iaith ei wlad.

RADIO ANNIBYNNOL Y GYMDEITHAS

Dechreuwn ddarlledu ein gwasanaeth radio Gymraeg ein hunain cyn y gaef. Galwn ar ein cefnogwyr i beidio â thalu'r dreth teledu ac anfon yr arian (£6 y flwyddyn) yn hytrach i Gronfa Radio Annibynnol y Gymdeithas.

Ysgrifennwch at y Gweinidog Post yn Llundain ac at eich A.S gan bwyso arnynt na all Cymru fforddio bod heb Awdurdod Darlledu Annibynnol yn hwy, os yw'r Gymraeg i fyw.

PENDERFYNIAD GWLEIDYDDOL FYDD CYMREIGIO'R CYFRYNGAU DARLLEDU A RHAID I BOBL CYMRU WNEUD EU LLAIS YN EGLUR YN Y MATER HWN,

Atodiad 2:

Gwlad y Basg – Sianeli a Gorsafoedd *Euskal Irrati Telebista* (EiTB))

TELEDU	Lansiwyd	laith	Cynnwys	Cynulleidfa
ETB 1	1983	Basgeg	Newyddion, adloniant, rhaglenni dogfen, chwaraeon, rhaglenni pobl ifanc, rhaglenni plant, ffilmiau	Cyffredinol
ETB 2	1986	Sbaeneg	Newyddion, adloniant, rhaglenni dogfen, chwaraeon, rhaglenni pobl ifanc, rhaglenni plant, ffilmiau	Cyffredinol
ETB 3	2008	Basgeg	Adloniant	Plant/Pobl Ifanc
ETB 4	2014	Dwyieithog	Chwaraeon	Cyffredinol
ETB Sat		Dwyieithog	Diwylliant Basgeg	Sbaen ac Ewrop
Canal Vasco		Dwyieithog	Diwylliant Basgeg	America Ladin
RADIO	Lansiwyd	laith	Cynnwys	Cynulleidfa
Euskadi Irratia	1982	Basgeg	Newyddion/radio siarad	Cyffredinol
Radio Euskadi		Sbaeneg	Newyddion/radio siarad	Cyffredinol
Euskadi Gazeta		Basgeg	Cerddoriaeth	Pobl ifanc
Radio Vitoria <small>Radio lleol i ddinas Vitoria</small>		Sbaeneg	Newyddion/radio siarad	Cyffredinol

Atodiad 3:
Catalwnia – Sianeli a Gorsafoedd
Corporació Catalana de Mitjans Audiovisuals (CCRTV)

TELEDU (Televisió de Catalunya)	Lansiwyd	Iaith	Cynnwys	Cynulleidfa
TV3/TV3 HD	1983 <small>Lansiwyd yr HD yn 2007</small>	Catalaneg	Newyddion, adloniant, dramaau, chwaraeon, ffilmiau rhaglenni dogfen, diwylliant	Cyffredinol
EI 33	1988	Catalaneg	Rhaglenni dogfen, diwylliant	Cyffredinol
TV3CAT	1995	Catalaneg	Rhyngwladol	Rhyngwladol
3/24	2003	Catalaneg	Newyddion <small>24-awr y dydd</small>	Cyffredinol
Super3	2009	Catalaneg	Adloniant	Plant/Pobl Ifanc
Esport 3	2010	Catalaneg	Chwaraeon	Cyffredinol
RADIO (Catalunya Ràdio)	Lansiwyd	Iaith	Cynnwys	Cynulleidfa
Catalunya Ràdio	1983	Catalaneg	Cyffredinol <small>24-awr y dydd</small>	Cyffredinol
Catalunya Música	1987	Catalaneg	Cerddoriaeth gyfoes a thraddodiadol <small>24-awr y dydd</small>	Cyffredinol
Catalunya Informació	1992	Catalaneg	Newyddion <small>24-awr y dydd</small>	Cyffredinol
iCat FM	2006	Catalaneg	Diwylliant cyfoes a thraddodiadol <small>Amb latfform – ar y we</small>	Pobl ifanc

